

CYPE(6)-01-22 - Papur i'w nodi 4

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Jayne

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Tachwedd yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor i roi tystiolaeth ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ('y Bil'). Cododd eich llythyr nifer o gwestiynau yr wyf wedi ymateb iddynt yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Wrth sefydlu un corff i fod yn gyfrifol am y sector addysg drydyddol, bydd y Bil yn galluogi'r Comisiwn i ddatblygu perthynas fwy effeithiol ac ystyrlon ar draws y sector. Yn eich llythyr, gwnaethoch holi sut y gallai'r berthynas rhwng cyflogwyr, cyrff dyfarnu, y Comisiwn a Chymwysterau Cymru wella drwy'r Bil.

Er na fydd rôl a swyddogaethau statudol Cymwysterau Cymru yn newid o ganlyniad uniongyrchol i gyflwyno'r Bil a sefydlu'r Comisiwn, mae'r Bil yn galluogi rhannu gwybodaeth rhwng y ddau gorff er mwyn iddynt allu arfer eu swyddogaethau statudol yn effeithiol. Bydd Cymwysterau Cymru'n parhau i reoleiddio cymwysterau a ddyfernir yng Nghymru gan gyrrff dyfarnu cydnabyddedig sy'n is na lefel gradd. Mae Cymwysterau Cymru'n rheoleiddio cymwysterau prentisiaeth yng Nghymru ac felly mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran gwella ansawdd y rhaglen brentisiaethau, gan sicrhau bod cymwysterau a gynhwysir mewn prentisiaethau yn diwallu anghenion cyflogwyr a phrentisiaethau.

Fy mwriad yw y bydd y Comisiwn yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr, cyrff dyfarnu a Chymwysterau Cymru i ddatblygu ac adolygu fframweithiau prentisiaeth er mwyn sicrhau bod y fframweithiau hynny'n parhau i fod yn berthnasol i anghenion cyflogwyr, safonau sector a thechnoleg sy'n newid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n rhagweld y bydd Bwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru hefyd yn parhau i chwarae rhan bwysig. Fel Bwrdd a arweinir gan fentrau annibynnol, gyda chynrychiolwyr o fusnesau, undebau llafur a chyrrff addysg bellach, mae'r Bwrdd hwn yn darparu cyngor ac argymhellion ar faterion sy'n ymwneud â chynnwys fframweithiau prentisiaethau a'r blaenoriaethau mewn perthynas â datblygu'r fframweithiau hynny yng Nghymru. Wedi'i lywio gan fewnbwn gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, mae'n cyfrannu at welliannau yng nghwmpas ac effaith y ddarpariaeth brentisiaethau yng Nghymru.


Yn y tymor canolig, cynrychiolir holl randdeiliaid y sector ar Fwrdd Gweithredu'r Strategaeth AHO, a byddaf yn parhau i weithio gyda phob rhan o'r sector i sicrhau'r newidiadau yr ydym am eu gweld.

Gan droi at weithredu, fel y soniais yn ystod y Pwyllgor mae rhaglen waith sylweddol i'w chwblhau er mwyn sefydlu'n llwyddiannus Comisiwn sy'n addas i'r diben ac sy'n ennyn hyder y sector addysg drydyddol. Fy mwriad o hyd yw sefydlu'r Comisiwn yn 2023, gyda dull gweithredu fesul cam yn parhau yn 2024 a 2025, ac rwyf wrthi'n ystyried y ffordd orau o gyflawni hyn er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod pontio i'r Comisiwn.

O ran pryd y gallai cynllun gweithredu fod ar gael i'r Pwyllgor ei ystyried, mae fy swyddogion yn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn. Hoffwn sicrhau ein bod yn rhoi cyfle priodol i randdeiliaid allweddol lywio'r gwaith hwn, ac felly rwy'n rhagweld y byddaf mewn sefyllfa i'w ddarparu i'r Pwyllgor ym mis Chwefror fwy na thebyg.

Mae'r llythyr hwn wedi'i anfon at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid.

Edrychaf ymlaen at ddod i'r cyfarfod ar 13 Ionawr i roi tystiolaeth bellach.



Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

1. Beth yw sylfaen dystiolaeth Llywodraeth Cymru dros gredu y bydd y Bil yn gwireddu bwriad Llywodraeth Cymru?

Fe wnaeth eich dadansoddiad cost a budd gan Alma Economics nodi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth, ac ymddengys fod peth camddealltwriaeth ynddo ynghylch natur y diwygiadau arfaethedig.

Er enghraifft, mae'n awgrymu y bydd y Comisiwn yn dod â'r sector ynghyd o dan un ymbarel rheoleiddio, ac yn nodi y bydd hyn yn cael gwared ar ddryswch o ran rolau nifer o sefydliadau'n gorgyffwrdd. Yna mae'n rhestru nifer o sefydliadau sydd y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol, fel Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth y DU a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA).

- 1.1 Yn 2015, cyhoeddodd yr Athro Hazelkorn adolygiad o'r gwaith o oruchwylio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Archwiliodd yr adolygiad effeithiolrwydd y trefniadau presennol, yn enwedig mewn perthynas â chyllido, llywodraethiant, sicrhau ansawdd, safonau a rheoli risg.
- 1.2 Cyhoeddwyd adroddiad yr Athro Hazelkorn ar 19 Mawrth 2016 ac roedd yn cynnwys dau brif argymhelliad. Yr argymhelliad cyntaf oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y system AHO, gyda chysylltiadau cryfach rhwng polisi addysg/hyfforddiant, darparwyr a nodau cymdeithasol ac economaidd. Yr ail oedd y dylid sefydlu corff hyd braich newydd i weithredu fel yr unig awdurdod rheoleiddio a goruchwylio ar gyfer y system ôl-orfodol gyfan.
- 1.3 Yn dilyn hynny, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad Papur Gwyn ac ymgynghoriad technegol ac ymgysylltodd yn helaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol angenrheidiol er mwyn gweithredu argymhellion a wnaed gan yr Athro Hazelkorn.
- 1.4 Nododd y dadansoddiad cost a budd gan Alma Economics anawsterau wrth nodi'r cysylltiad achosol rhwng newidiadau polisi a'r arbedion posibl ar gyfer y dyfodol (mewn perthynas â'r diwygiadau addysg yn gyffredinol yn hytrach na'r set hon o ddiwygiadau yn benodol), ond nododd hefyd fanteision a chyfleoedd posibl y gallai'r newidiadau hyn eu cynnig.
- 1.5 Gwyddom fod gan ein sector addysg drydyddol nifer o rwystrau a grëwyd gan y rhaniad sefydliadol a sector. Mae posiblwydd clir y gallai dileu'r rhwystrau hyn, defnyddio adnoddau ar y cyd a chanolbwyntio ar ddysgwyr alluogi dyrannu adnoddau'n fwy priodol i anghenion dysgwyr, gan gynnwys yr hyblygrwydd i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ac unrhyw ddyblygu. Mae hefyd yn rhoi cyfle i gynnwys llais y dysgwr wrth lunio'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau bod llwybrau gyrfa yn cael eu mynegi'n gliriach ac yn hygyrch, a gwella parch cydradd.

2. Nid oes unrhyw resymeg glir yn bresennol yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch pam y cafodd rhai opsiynau eu gadael i fynd yn gynnar yn y broses. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn deall proses Llywodraeth Cymru o wneud penderfyniadau ar gyfer y Bil newydd hwn. A allwch chi egluro pam nad oes mwy o wybodaeth am hyn ar gael i ni?

- 2.1 Wrth ddatblygu'r Bil, cynhaliwyd proses gadarn a manwl i nodi ac arfarnu opsiynau. Mae Pennod 7 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r dull a gymerwyd, ac yn manylu ar y rhestr hir o chwe opsiwn (ynghyd ag is-opsiynau) a ystyriwyd a'r broses sgorio ac arfarnu a arweiniodd at eu diystyru.
- 2.2 Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, roedd yr opsiynau rhestr hir yn destun dwy broses arfarnu opsiynau lle cawsant eu hasesu yn erbyn pum nod lefel uchel, a oedd yn gyson â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol fel y'u nodwyd yng Ngweledigaeth Strategol Llywodraeth Cymru, ac un ar ddeg o amcanion lefel uchel.
- 2.3 Gwerthuswyd a sgoriwyd pob opsiwn yn unol â graddfa sgorio benodol, ac ar ôl cwblhau'r broses arfarnu / sgorio cafodd pob opsiwn eu dosbarthu fel Diystyru, Ffaffrio, neu Bosibl. Cafodd opsiynau eu diystyru oherwydd amrywiaeth o ffactorau - naill un ffactor yn unig neu gyfuniad o sawl un, gan gynnwys
- eu bod wedi sgorio'n isel yn erbyn yr amcanion lefel uchel;
 - nad oeddent yn cynnig manteision ar draws y sector addysg drydyddol cyfan;
 - eu bod yn annymunol oherwydd diffyg cefnogaeth wleidyddol a/neu ddiffyg cefnogaeth gan randdeiliaid
- 2.4 Mae'r Memorandwm Esboniadol wedyn yn nodi'r dadansoddiad manwl o'r opsiwn a ffeirir, yr opsiwn posibl (y opsiwn a gafodd y sgôr uchaf ond un) a'r opsiwn gwneud dim; mae hyn yn unol ag arfer cyffredin.

3. Sut fydd y trosglwyddiad rheoleiddio a chyllid yn cael ei reoli gan ystyried y bydd angen i ddarparwyr wneud cais i gofrestru a pharatoi'r ceisiadau hynny?

- 3.1 Mae gwaith i weithredu'r Bil wedi bod yn mynd rhagddo yn y cefndir ers tro, er enghraifft drwy weithdai gyda rhanddeiliaid ynghylch nodi'r gofynion strategol ar gyfer y Comisiwn, ac ystyried y trefniadau angenrheidiol, yn gyfreithlon ac yn weithredol, i sicrhau trosglwyddo didrafferth o'r trefniadau presennol i'r trefniadau newydd.
- 3.2 Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn ystyried hyd a lled y gwaith sydd ei angen i ddatblygu cynllun gweithredu lefel uchel ymhellach, a gefnogir gan raglen ddeddfwriaethol. Ein prif ffocws fydd deall yr amseroedd arweiniol ar gyfer prif elfennau'r Bil sef y system gofrestru, y fframwaith ansawdd a darpariaeth Addysg Bellach estynedig. Mae fy swyddogion wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynghylch datblygu'r cynllun hwn a bydd y gwaith hwn yn parhau dros y misoedd nesaf.
- 3.3 Bydd gweithredu swyddogaethau'r Comisiwn yn llawn, fel y darperir ar eu cyfer yn y Bil, yn parhau tan 2025. Bydd hyn yn galluogi ymgysylltu cadarn â rhanddeiliaid yn ystod y broses weithredu ac yn sicrhau bod y Comisiwn yn gallu arwain mewn meysydd allweddol.

- 4. Beth yw'r rhesymeg dros beidio â rhoi pwerau i'r Comisiwn sefydlu ei fframwaith cyllido cydlynol ei hun, ond yn hytrach dweud pwy sy'n gymwys i gael cyllid ar sail rheoliadau Gweinidogion Cymru?**
- 4.1 Credaf fod y Bil yn galluogi'r Comisiwn i sefydlu fframwaith cyllido cydlynol. Mae deddfu ar gyfer corff newydd yn gofyn am sicrhau'r cydbwysedd cywir drwy sicrhau bod terfynau clir ar bŵer y corff newydd hwnnw a bod hyblygrwydd i gorff o'r fath weithio'n effeithiol dros yr hirdymor.
- 4.2 Mae adran 85 o'r Bil yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu cymorth ariannol i ddarparwyr penodedig mewn perthynas â darparu addysg uwch a chynnal gweithgareddau eraill. "Darparwyr penodedig" yw'r rhai sydd wedi'u cofrestru mewn categorïau penodol a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Y bwriad yw y bydd darparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categorïau hynny yn gymwys i gael cyllid uniongyrchol gan y Comisiwn. Rhaid i Reoliadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru er mwyn i gyllid gael ei ddarparu yn unol ag adran 85.
- 4.3 Mae'r un egwyddorion yn gymwys mewn perthynas â chyllido ymchwil ac arloesi yn unol ag adran 102 o'r Bil sy'n gwneud darpariaeth i'r Comisiwn ddarparu cyllid i ddarparwyr penodedig at ddibenion ymchwil neu arloesi, neu mewn cysylltiad â hynny. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd yr opsiwn i ddarparu, drwy reoliadau, bod y Comisiwn ond yn gallu rhoi cyllid ar gyfer darparu prentisiaethau Cymreig cymeradwy ac addysg bellach a hyfforddiant i ddarparwyr cofrestredig mewn categorïau penodol (mae adrannau 101(3) a 95(2) yn cyfeirio at hyn). Ar wahân, bwriedir i gyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr cofrestredig gael eu dynodi ar gyfer symiau penodol o gymorth myfyrwyr, yn dibynnu ar y categori y mae'r darparwr wedi'i gofrestru ynddo. Byddai cyrsiau'n cael eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr drwy reoliadau a wneir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.
- 4.4 Gyda'i gilydd, bydd y rheoliadau hyn yn sicrhau bod y manteision a gaiff darparwyr yn cyd-fynd â'r gofynion rheoliadol a osodir arnynt. Mae nodi'r categorïau cofrestru perthnasol yn sicrhau tryloywder ac yn caniatáu i aelodau'r Senedd graffu arnynt.
- 4.5 Mae'r Bil yn galluogi'r Comisiwn i gyllido'r ystod lawn o addysg drydyddol gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg uwch. Mae'r pwerau cyllido'n adlewyrchu amgylcheddau gweithredu gwahanol yr awdurdodau lleol, darparwyr addysg bellach a hyfforddiant a darparwyr addysg uwch. Y Comisiwn fydd yn pennu'r dyraniadau cyllid i ddarparwyr cymwys.
- 5. Mae CCAUC yn dweud wrthym: "Mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi'r Llywodraeth i ariannu ymchwil o amgylch y Comisiwn drwy gadw pwerau o dan Ddeddf Gwyddoniaeth a Thechnoleg 1965 a Deddf Addysg Uwch 2004. Mae'r rhesymeg dros hyn yn aneglur." A fyddech cystal â dweud beth yw'r rhesymeg dros hyn?**
- 5.1 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyllido ymchwil ac arloesi ers dechrau datganoli. Mae Llywodraeth Cymru'n cyllido nifer fawr o raglenni ymchwil ac arloesi yn uniongyrchol ar draws ystod o feysydd gan gynnwys ymchwil iechyd, arloesi busnes a rhaglenni fel Sêr Cymru, gyda llawer o'r rhaglenni hyn wedi bod yn

ddibynnol ar gyllid o'r UE. Nid yw'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i ddileu pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido'r meysydd hyn.

- 5.2 Bydd y Comisiwn yn etifeddu cyfrifoldebau CCAUC am gyllido ymchwil ac arloesi, gan gynnwys cyllid ar gyfer ymchwil cysylltiedig ag ansawdd, cyllid ar gyfer ymchwil ôl-raddedig, cyllid cyfalaf ar gyfer ymchwil, a'r cyllid arloesi addysg uwch a ailgyflwynwyd yn ddiweddar.
- 5.3 Bydd sefydliadau addysg bellach cofrestredig mewn categori penodedig (disgwylir iddynt fod yn y categori addysg uwch – craidd ar hyn o bryd) yn gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn ar gyfer ymchwil ac arloesi. Gall sefydliadau addysg bellach nad ydynt yn gofrestrdedig hefyd gael cyllid ymchwil ac arloesi gan y Comisiwn drwy sefydliad cofrestredig arall y maent yn cydweithio ag ef.

6. Beth yw'r rhesymeg dros beidio â disgwyl i bob darparwr fodloni'r amod parhaus o gyfle cyfartal ar gyfer cofrestru? Pa ddarparwyr y bydd disgwyl iddynt fodloni'r amod hwn?

- 6.1 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft, mae cynigion mewn perthynas â Chynlluniau Mynediad a Chyfle sefydliadol wedi'u dileu o'r Bil, ac yn cael eu disodli gan amod cofrestru mwy cyffredinol ar gyfer darparwyr cofrestredig er mwyn i fynediad at ddarpariaeth addysg drydyddol ac agweddau eraill fod yn decach ac yn fwy cyfiawn.
- 6.2 Bwriedir darparu ar gyfer dau gategori cofrestru (addysg uwch - craidd ac addysg uwch - amgen) i ddechrau ac i'r ddau gategori fod yn ddarostyngedig i'r amod cofrestru cyfle cyfartal. Byddai hyn felly'n cynnwys yr holl ddarparwyr sy'n ceisio cael eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.
- 6.3 Bydd gan y Comisiwn hefyd ddyletswydd strategol glir i hyrwyddo ehangu cyfranogiad, gwella cyfraddau cadw, lleihau bylchau o ran cyrhaeddiad, a chymorth i fyfyrwyr mewn addysg drydyddol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a demograffeg ddifreintiedig.
- 6.4 Mater i'r Comisiwn fydd pennu union ofynion yr amod cofrestru cyfle cyfartal, yn ogystal ag unrhyw ofynion cyfle cyfartal y gallai fod eu hangen ar ddarparwyr a gyllidir drwy Gytundebau Canlyniadau a thelerau ac amodau cyllid. Disgwylw'n y bydd y Comisiwn yn datblygu ei bolisi yn y maes hwn mewn ymgynghoriad â darparwyr, staff a chynrychiolwyr myfyrwyr.
- 6.5 Mae'n werth nodi bod gan lawer o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru, megis ysgolion, colegau a phrifysgolion, eisoes nifer o ddyletswyddau'n ymwneud â chydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- 6.6 Fodd bynnag, rwyf wrthi'n rhoi ystyriaeth bellach i'r syniad o gynnwys darpariaeth ar wyneb y Bil er mwyn i bob darparwr cofrestredig orfod bodloni'r amod cyfle cyfartal ar gyfer cofrestru. Byddai hyn yn golygu bod unrhyw gategoriâu cofrestru yn y dyfodol yn ddarostyngedig i'r amod cyfle cyfartal yn awtomatig yn hytrach na bod hyn yn ddibynnol ar wneud rheoliadau. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad â'ch sefydliad wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

7. I ba raddau ydych chi wedi mynd i'r afael â phryderon CCAUC ynghylch ystyried trefniadau ansawdd ar gyfer addysg draws-wladol, trefniadau dilysu a phrentisiaethau gradd?

- 7.1 Mae dyletswydd y Comisiwn i asesu ansawdd addysg uwch yn ymestyn i addysg uwch a ddarperir:
- gan ddarparwr cofrestredig;
 - ar ran pob darparwr cofrestredig (boed gan ddarparwr cofrestredig arall neu gan ddarparwr allanol)
- 7.2 Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i'r darparwyr hynny sy'n darparu addysg uwch ar ran darparwr cofrestredig p'un a ydynt yng Nghymru neu y tu allan i Gymru.
- 7.3 Mae elfennau addysg uwch prentisiaethau gradd yn "addysg uwch" at ddibenion darpariaethau asesu ansawdd y Bil, ac felly bydd y Comisiwn dan ddyletswydd i asesu ansawdd elfennau addysg uwch prentisiaethau gradd a disgwylir i hyn gael ei gynnal gan y corff dynodedig (neu gan y Comisiwn ei hun os yw'r Comisiwn yn dewis hynny).
- 7.4 Deallir bod CCAUC, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ac Estyn wedi bod mewn trafodaethau am y ffyrdd y gallai profiad Estyn o arolygu prentisiaethau gefnogi'r asesiad o ansawdd mewn perthynas ag elfennau addysg uwch prentisiaethau gradd. Mater i'r Comisiwn, y corff ansawdd dynodedig ac Estyn fydd cytuno pa rôl y gallai Estyn ei chael yn y maes hwn yn y dyfodol.
- 7.5 Yn ogystal, mae adran 55 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, mewn rheoliadau, addysg a hyfforddiant sy'n dod o fewn cylch gwaith Estyn, a gallai hyn gynnwys elfennau addysg uwch prentisiaethau gradd lle y'u hystyrir yn angenrheidiol neu'n ddymunol.

8. Canfu gwaith craffu ar ôl deddfu ar y Ddeddf Addysg Uwch fod y system sicrhau ansawdd ar gyfer darparwyr addysg bellach sy'n darparu addysg uwch yn golygu bod sefydliadau'n ddarostyngedig i ofynion QAA a gofynion Estyn. Mae'n ymddangos bod y Bil yn parhau â'r sefyllfa hon – a allwch chi nodi'r rhesymeg dros hyn.

- 8.1 Mae'r Bil yn nodi cyfrifoldebau Estyn a'r corff ansawdd dynodedig (neu'r Comisiwn os yw'n dewis peidio â dynodi corff) yn ôl y math o ddarpariaeth yn hytrach na darparwr. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cysondeb o ran sut y caiff darpariaeth addysg bellach ei hasesu ar draws ysgolion a cholegau, a sut y caiff addysg uwch ei hasesu ar draws colegau a phrifysgolion.
- 8.2 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn gytuno ar ei gynllun o arolygiadau ar gyfer y ddarpariaeth yng nghylch gwaith y Comisiwn gyda'r Comisiwn ei hun, ac i'r corff ansawdd dynodedig gynnal ei asesiadau o ansawdd addysg uwch yn unol ag unrhyw drefniadau a wneir gyda'r Comisiwn. Bydd hyn yn galluogi cydgysylltu a asesiadau ac arolygiadau yn well o lawer mewn darparwyr a allai fod yn destun i'r ddau. Yn ogystal, bydd disgwyl i Estyn a'r corff dynodedig sicrhau bod eu prosesau'n gydnaws â blaenoriaethau a fframweithiau cyffredinol y Comisiwn ar gyfer ansawdd a fydd, gobeithio, yn creu mwy o gydlyniaeth ac aliniad.

9. Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch chi gytuno i ymateb i'r cwestiwn hwn yn ysgrifenedig: A yw prif gontractwyr prentisiaethau angen cydsyniad Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i drosglwyddo cyllid i isgontractwyr, ac nad ydynt, beth yw'r rhesymeg dros newid hyn yn y Bil i wneud cydsyniad yn ofynnol?

- 9.1 Mae'r darparwyr prentisiaethau presennol yn gallu, drwy'r telerau ac amodau a nodir yn eu contractau gyda Llywodraeth Cymru, penodi is-gontractwyr heb ganiatâd ysgrifenedig Gweinidogion Cymru. Mae'r telerau ac amodau hynny hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr prentisiaethau fodloni eu hunain, yn barhaus, o statws ariannol unrhyw is-gontractwr y maent yn ymgysylltu ag ef a'i allu i gyflawni pa dasgau bynnag y mae gofyn i'r is-gontractiwr eu gwneud.
- 9.2 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn roi cydsyniad i gyllid gael ei roi gan ddarparwyr a gyllidir yn uniongyrchol i gyrff sy'n cydlafurio ar gyfer neu mewn cysylltiad â darparu prentisiaeth Gymreig gymeradwy.
- 9.3 Mewn perthynas â darparu cymorth ariannol gan y Comisiwn ar gyfer prentisiaethau Cymreig cymeradwy, mae cyrff sy'n cydlafurio yn ddarparwyr sy'n:
- darparu, neu wedi darparu, prentisiaeth Gymreig gymeradwy ar ran y darparwr a gyllidir yn uniongyrchol; neu'n
 - gweithio, neu wedi gweithio, mewn cydweithrediad â'r darparwr at y diben y darparwyd y cymorth ariannol ar ei gyfer gan y Comisiwn.
- 9.4 Gan nad oes gan y Comisiwn berthynas reoleiddio neu gyllido uniongyrchol â'r corff sy'n cydlafurio, bydd y fframwaith hwn o reolaethau yn caniatáu iddo gymryd camau priodol, er enghraifft atal neu dynnu caniatâd yn ôl neu roi cydsyniad yn ddarostyngedig i amodau. Hynny er mwyn iddo allu cymryd camau i ddiogelu buddiannau dysgwyr, i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac i ddiogelu enw da sector addysg drydyddol ac ymchwil Cymru.

10. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd Cynlluniau Diogelu Dysgwyr yn cefnogi myfyrwyr sy'n dymuno trosglwyddo cyrsiau pan fydd rhwystrau systemig yn aml i wneud hynny, fel cydnabod statws uwch a throsglwyddo credydau?

- 10.1 Bwriad darpariaethau'r cynllun diogelu dysgwyr yw cefnogi gweithredu trefniadau cyson ar draws y sector addysg drydyddol i ddiogelu buddiannau dysgwr pe bai cwrs neu gampws yn cau, darparwr yn methu neu'r dysgwr yn penderfynu trosglwyddo i gwrs neu ddarparwr arall. Prif nod y ddarpariaeth yw lleihau effaith y digwyddiadau hyn ar ddysgu unigolion a lleihau'r risg y gallai'r dysgwr roi'r gorau i'w ddysgu.
- 10.2 Er bod arfer da ar draws y sector addysg drydyddol o ran diogelu buddiannau dysgwyr pan fod digwyddiad fel cau cwrs neu gampws neu fethiant darparwr yn amharu ar eu dysgu, mae angen dull cyson a chynhwysfawr ar draws y sector a bydd darparu ar gyfer trefniadau statudol mewn perthynas â chynlluniau amddiffyn dysgwyr yn helpu i sicrhau dull gweithredu o'r fath.

- 10.3 Rhagwelir y bydd y cynlluniau'n adeiladu ar arfer da sy'n bodoli eisoes, gan roi ffocws o'r newydd i oresgyn rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag trosglwyddo i gyrsiau eraill er mwyn eu galluogi i barhau â'u dysgu. Y bwriad yw y bydd hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr yn y ffordd y maent yn astudio ac yn eu helpu i symud o un lefel i'r llall a rhwng gwahanol fathau o ddysgu, er enghraifft rhwng addysg bellach ac addysg uwch.
- 10.4 Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ddatblygu canllawiau, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, ar fanylion sut y caiff y cynlluniau amddiffyn dysgwyr eu datblygu, gan gynnwys sut y gellir cefnogi myfyrwyr i drosglwyddo o un cwrs i'r llall.
- 10.5 Mae'n hanfodol bod darpar ddysgwyr a staff presennol sy'n gweithio i ddarparwyr addysg drydyddol yn ymwybodol o'r trefniadau hyn. Bydd y Comisiwn yn gallu cyhoeddi canllawiau i ddarparwyr, o dan baragraff 22(1)(a) neu (b) o Atodlen 1, mewn perthynas â materion fel sut y dylid cyflwyno'r cynlluniau'n briodol i ddarpar ddysgwyr, a dysgwyr a staff presennol.

11. I ba raddau y bydd cysondeb o ran disgwyliadau ar draws yr holl ddarparwyr addysg drydyddol ynghylch lefel ymrwymiad a chynnwys eu Cynllun Diogelu Dysgwyr?

- 11.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i gyhoeddi canllawiau ar baratoi ac adolygu cynlluniau diogelu dysgwyr yn unol ag adran 122(6) o'r Bil. Rhagwelir y bydd cynlluniau diogelu dysgwyr yn seiliedig ar gyfres gyffredin o egwyddorion yn unol â'r canllawiau hyn er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar draws y sector AHO.
- 11.2 Rhannwyd egwyddorion drafft gyda rhanddeiliaid yn ymgynghoriad technegol Llywodraeth Cymru "Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf". Roedd yr egwyddorion hyn yn cynnwys y dylai'r cynlluniau ganolbwyntio ar y dysgwr, bod yn gefnogol i les dysgwyr, gael eu cyfathrebu'n effeithiol i ddarpar ddysgwyr a staff presennol a chael eu hategu gan drefniadau amserol ac effeithiol. Rhagwelir y bydd y gyfres gyffredin o egwyddorion yn cael ei chwblhau gan y Comisiwn yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid gan fod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol cyn cyhoeddi canllawiau o dan adran 122(6) (yn unol ag adran 122(7)).
- 11.3 Yn amodol ar roi hysbysiad, bydd cael Cynllun Diogelu Dysgwyr a gymeradwywyd gan y Comisiwn a gweithredu'r cynllun hwnnw, yn amod cofrestru neu'n amod cyllido parhaus, yn dibynnu ar berthynas darparwr â'r Comisiwn. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn fonitro effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr a chynnwys ei ganfyddiadau yn ei adroddiad blynyddol.
- 11.4 Er y dylai cynlluniau diogelu dysgwyr gyd-fynd â'r egwyddorion cyffredin hyn, cydnabyddir y bydd manylion y trefniadau hyn yn wahanol ar draws y sector AHO. Bwriedir mabwysiadu dull cymesur wrth ddatblygu cynlluniau diogelu dysgwyr nad yw'n arwain at faich diangen ychwanegol ar ddarparwyr ond sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr.